



Ein cyf/Our ref: MA-P-FM 3016-18

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

ScrutinyFM@assembly.wales

31 Awst 2018

Annwyl Ann

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Awst ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor yn cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 6 Gorffennaf.

Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth twristiaeth 2013-2020

Mae yn yr adolygiad 'canol tymor' o'r strategaeth, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, gyfres o flaenoriaethau a chymau gweithredu diwygiedig sy'n dilyn y cynlluniau gweithredu cynharach. Fel y dywedais yn glir yng nghyfarfod y Pwyllgor, ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar gyflawni'r strategaeth sy'n bodoli eisoes. Wrth i 2020 nesáu, byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r diwydiant, drwy'n pedwar fforwm rhanbarthol, i lunio'n strategaeth nesaf.

Effaith Brexit ar y sector twristiaeth

Rydym wedi bod yn ystyried, ac rydym yn parhau i ystyried, goblygiadau Brexit i economi Cymru yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys yr economi ymwelwyr. Yn ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, nodir bod 11% o weithwyr y diwydiant twristiaeth yn fudwyr – 5% ohonynt o wledydd yr UE, a bod twristiaeth yn faes a fydd dan fygythiad. Er mwyn ymateb i hynny, rydym yn gweithio gyda'r sector twristiaeth i hybu sgiliau yn y maes a chyda Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â llafur yn y dyfodol. Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru hefyd wedi elwa ar symiau mawr o gyllid o'r UE.

Mae llif cyson o ymwelwyr rhyngwladol yn hanfodol i'n diwydiant twristiaeth. Rydym yn canolbwyntio ar farchnadoedd aeddfed ac ar farchnadoedd newydd yn Iwerddon, yr Almaen ac UDA ac yn cydweithio â phartneriaid masnachol i gyrraedd cynulleidfia ehangach. Yn sail i'r gwaith hwn y mae rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y cwmnïau hynny yn y diwydiant teithio sy'n trefnu teithiau. Gwelwyd twf o 28% y llynedd yng ngwerth y busnes a gafwyd oddi wrth y 100 prif gwmni yn y maes.

Ym mis Ionawr, cyhoeddais y byddwn yn sefydlu Cronfa Bontio'r UE ac ynddi swm cychwynnol o £50 miliwn i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i baratoi ar gyfer Brexit, ac i helpu cyflogwyr i gadw ac i barhau i ddenu gwladolion yr UE.

Ar ôl Brexit, bydd yn bwysicach nag erioed inni farchnata Cymru fel lle i fyw ynddo, i ymweld ag ef ac i fuddsoddi ynddo. Byddwn yn parhau i fuddsoddi ym mrand Cymru, sydd eisoes wedi ennill nifer o wobrau, a byddwn yn mynd ati ar y cyd ar draws y Llywodraeth i greu'n proffil rhyngwladol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymwelwyr â safleoedd Cadw

Yng nghyfarfod y Pwyllgor, cyfeiriodd fy swyddogion at yr ymchwil fanwl a wnaed ar ran Cadw (Rhagfyr 2017) ar ganfyddiadau ymwelwyr ac ar wybodaeth am ymweliadau â safleoedd treftadaeth y byd, gan hoelio sylw penodol ar Gastell Caernarfon. Amgaeaf gopi o'r ymchwil honno.

Gwnaethoch ofyn hefyd am broffil ymwelwyr. Pobl ar eu gwyliau yw rhyw ddwy ran o dair (68%) o'r ymwelwyr â safleoedd Cadw, er bod hynny'n amrywio'n fawr ar draws rhanbarthau Cymru. Mae mwy o'r ymwelwyr â safleoedd yn y Gogledd yn bobl sydd ar eu gwyliau (87%) na'r rheini sy'n ymweld â safleoedd yn y De-ddwyrain (47%). O ran grwpiau cymdeithasol-economaidd, daw'r mwyafrif o grwpiau AB a C1. Mae Cadw wrthi'n gweithio i alluogi amrywiaeth ehangach o bobl i ymweld â'r adeiladau sydd o dan ei ofal, gan gynnwys cynnig mynediad am ddim i blant maeth a'u teuluoedd ac i gyn-filwyr, ac mae hefyd yn cynnig mynediad am ddim i bawb ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad llawn o fynediad i safleoedd Cadw a bydd y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn rhoi rhagor o fanylion am hyn ym mis Medi.

Ardrethi Busnes

Nod y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, sy'n gynllun parhaol newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, yw helpu busnesau bach. O dan y cynllun, caiff y rhyddhad ei gynnig i ddau eiddo yn unig sydd gan dalwr ardrethi yn ardal pobl awdurdod lleol.

Bydd busnesau hunanddarpar sydd â nifer o adeiladau mewn un lleoliad yn dal i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar ddau safle cymwys, a byddant hefyd yn cael unrhyw Gymorth Pontio cymwys sy'n ganlyniad i'r ailbrisio yn 2017. Ni ellir ystyried talwyr ardrethi sy'n berchen ar adeiladau mwy o faint neu ar nifer o adeiladau bach mewn cyfadeilad yn fusnes bach at ddibenion ardrethi annomestig ac mae'n briodol bod y rhain yn cyfrannu swm teg er mwyn helpu i gefnogi gwasanaethau lleol. Mae'r refeniw a godir drwy ardrethi annomestig yng Nghymru yn cael ei ailddosbarthu'n llawn i'r awdurdodau lleol ac i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol.

Ceisiwyd barn talwyr ardrethi a rhanddeiliaid cyn mynd ati i roi'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar waith, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd yn deg ac yn briodol. Rydym wrthi'n gwerthuso sut y mae'r cynllun yn cael ei weithredu mewn perthynas ag eiddo hunanddarpar a byddwn yn monitro'r effaith ar y sector hwnnw.

Llinell reilffordd Caerfyrddin i Aberystwyth

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno'r adroddiad ar yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar Adfer y Rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin i Lywodraeth Cymru, a bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ystyried cyngor ar y camau nesaf y dylid eu cymryd mewn perthynas â chanfyddiadau'r adroddiad. Y nod yw cyhoeddi'r adroddiad ym mis Medi.

Yn gywir



CARWYN JONES